OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 595

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

## RHAN 1

## Cyffredinol

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau 2 i 9 i rym ar 17 Mehefin 2020.

(3) Daw'r rheoliad hwn a rheoliadau 10 ac 11 i rym pan wneir y Rheoliadau hyn.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "ardal deithio gyffredin" yr ystyr a roddir i "common travel area" yn adran 1(3) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**1**);

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

ystyr "gwasanaeth teithwyr rhyngwladol" ("*international passenger service*") yw gwasanaeth masnachol y mae teithwyr yn ei ddefnyddio i deithio ar lestr neu awyren o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i borthladd yng Nghymru;

ystyr "llestr" ("*vessel*") yw pob ddisgrifiad o lestr a ddefnyddir i fordwyo (gan gynnwys hofrenfad o fewn ystyr "hovercraft" yn Neddf Hofrenfadau 1968(**2**)) sy'n 24 o fetrau neu fwy o hyd;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw—

(a) mewn perthynas â theithwyr sy'n cyrraedd ar lestr, yr Ysgrifennydd Gwladol;

(b) mewn perthynas â theithwyr sy'n cyrraedd ar awyren, yr Awdurdod Hedfan Sifil(**3**);

mae "porthladd" ("*port*") yn cynnwys unrhyw faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr.

(**1**) 1971 p. 77. Mae'r adran honno yn darparu y cyfeirir ar y cyd at y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon fel "the common travel area".

(**2**) 1968 p. 59.

(**3**) Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil yn gorff corfforedig a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Hedfan Sifil 1971 (p. 75).